# Public Health Wales statement on Novel Coronavirus (COVID- ) outbreak

**This statement will be updated daily at pm**

*Updated: : pm Sunday July*

Dr Giri Shankar, Incident Director for the Novel Coronavirus (COVID-19) outbreak response at Public Health Wales, said:

“Yesterday the Minister for Health and Social Services announced that anyone arriving in Wales, and the rest of the UK, from Spain (or who has been in Spain during the past 14 days) will be required to quarantine for 14 days as of today (26 July).

“The Foreign and Commonwealth Office (FCO) has updated its guidance, advising against all but essential travel to mainland Spain. People currently on holiday in Spain are encouraged to follow the local rules, return home as normal and check the FCO’s travel advice pages on GOV.UK for further information.

“We continue to caution and remind the public and business-owners that we all have a vital role in preventing the spread of Coronavirus by always sticking to social distancing guidelines - staying two metres away from others, and washing hands regularly. When travelling you should also avoid car sharing with people outside your household.

"Anyone with suspected symptoms of COVID-19 infection - a high temperature, a new, continuous cough, or a loss of smell or taste (anosmia) - must self-isolate and seek an urgent test.

"Confirmed cases must isolate for seven days, with members of their household isolating for 14 days until the risk of passing on further infection has gone. Combined, these simple but effective actions will ensure the virus does not spread.

**Updates on current incidents**

“Public Health Wales can confirm that we are reporting no new cases of Coronavirus associated with the 2 Sisters site at Llangefni, Anglesey.

“The total therefore remains at 221 cases linked to the outbreak. The fact that no new cases have been recorded is a positive sign, and indicates that control measures have been effective.

“The focused testing programme has been concluded, and there is no evidence of wider community transmission resulting from the outbreak. As long as there is no change to this position, then we will look to formally bring this outbreak to a close in the near future.

“Public Health Wales and our multi-agency partners have been investigating a small number of laboratory confirmed cases of Coronavirus associated with the Zorba Delicacies Ltd food processing plant in Ebbw Vale. Following the testing of 476 employees, the total number of laboratory confirmed cases remains at eight, with one other probable case.

“Close contacts of confirmed cases have been contacted through the Test, Trace, Protect process and provided with additional advice for themselves, household and other contacts.”

“An Outbreak Control Team continues to monitor for cases associated with the workforce at Rowan Foods, and part of its work is to constantly review its data on cases of Novel Coronavirus (COVID-19) infection.

“As part of this process we are investigating cases within the Wrexham area through the Test Trace Protect process. This work naturally includes identifying where we believe transmission may be occurring, and identifying local clusters of cases.

“In addition, the total number of positive cases identified at the Kepak Merthyr meat processing plant is 141 positive cases since April. Investigations in this cluster continue, and updates will be issued in the coming days.

“The Food Standards Agency advise that it is very unlikely that you can catch coronavirus from food. Coronavirus is a respiratory illness. It is not known to be transmitted by exposure to food or food packaging.

**Contact tracing and general information**

"Contact tracing continues in Wales as part of the Welsh Government's *Test, Trace, Protect* strategy. Anyone who has a positive Coronavirus test will be contacted by a team of contact tracers, and asked for details of everyone they have had close contact with while they have had symptoms.

"Please keep a note of your activities so you can easily remember your whereabouts on a given day, along with who you were in contact with.

"If you are asked to self-isolate, you should also comply with this request to prevent further spread of the virus.

"Tracers are trained staff and personal information that you provide will handled in line with data protection regulations and will not be shared widely.

"Further information about the symptoms of Coronavirus is available on the Public Health Wales website, or members of the public can use the NHS Wales symptom checker.

"Anyone experiencing Coronavirus symptoms can apply for a home testing kit by visiting www.gov.wales/coronavirus, or by calling the national 119 phone service.

"Anyone with suspected coronavirus should not go to a GP surgery, pharmacy or hospital. They should only contact NHS 111 if they feel they cannot cope with their symptoms at home, their condition gets worse, or their symptoms do not get better after seven days.

"Only call 999 if you are experiencing a life-threatening emergency, do not call 999 just because you are on hold to 111. We appreciate that 111 lines are busy, but you will get through after a wait."

"Public Health Wales' user-friendly data dashboard takes information from a range of different sources. The total number of positive cases now includes those reported from non-NHS Wales laboratories, which are subject to ongoing de-duplication, refinement and reconciliation. This may result in fluctuation of the total positive cases as this process takes place.

"It should be noted that the cases from non-NHS Wales laboratories are not new cases, and have been on the dashboard for a number of weeks. They have previously been reported on a separate tab, but are now incorporated into the totals for the local authority area and Health Board area in which the patient resides, to give a complete picture for Wales.

**ENDS**

**CONTACT: For media enquiries please contact the Public Health Wales Communications team on 02920 348755 (24 hours)**

Editor's notes

Detailed information on new cases of Novel Coronavirus (COVID-19) in Wales is now available on our user-friendly data dashboard on the Public Health Wales website.

Public Health Wales is an NHS organisation providing professionally independent public health advice and services to protect and improve the health and wellbeing of the population of Wales.

Public Health Wales has four statutory functions:

- To provide and manage a range of public health, health protection, healthcare improvement, health advisory, child protection and microbiological laboratory services and services relating to the surveillance, prevention and control of communicable diseases;
- To develop and maintain arrangements for making information about matters related to the protection and improvement of health in Wales available to the public; to undertake and commission research into such matters and to contribute to the provision and development of training in such matters;
- To undertake the systematic collection, analysis and dissemination of information about the health of the people of Wales in particular including cancer incidence, mortality and survival; and prevalence of congenital anomalies; and
- To provide, manage, monitor, evaluate and conduct research into screening of health conditions and screening of health related matters.

More information on Public Health Wales is available at www.phw.nhs.wales

*Diweddarwyd: : yp Dydd Sul Gorffennaf*

Dywedodd Dr Giri Shankar, y Cyfarwyddwr Digwyddiadau ar gyfer yr ymateb i'r achosion o'r Coronafeirws Newydd (COVID-19) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru:

“Ddoe cyhoeddodd y Gweinidog ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd yn ofynnol i unrhyw un sy'n cyrraedd i Gymru, a gweddill y DU, o Sbaen (neu sydd wedi bod yn Sbaen yn ystod yr 14 diwrnod diwethaf) fod mewn cwarantin am 14 diwrnod o heddiw ymlaen (26 Gorffennaf).

“Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO) wedi diweddaru ei chyfarwyddyd yn erbyn pob teithio ar wahân i deithio hanfodol i dir mawr Sbaen. Mae pobl sydd ar eu gwyliau ar hyn o bryd yn Sbaen yn cael eu hannog i ddilyn y rheolau lleol, dychwelyd adref fel arfer ac edrych ar dudalennau cyngor teithio'r FCO yn GOV.UK am ragor o wybodaeth.

“Rydyn ni'n parhau'n ofalus ac yn atgoffa'r cyhoedd a pherchnogion busnes bod gennym ni i gyd rôl hanfodol i'w chwarae mewn atal lledaeniad y Coronafeirws drwy lynu bob amser wrth ganllawiau cadw pellter cymdeithasol – cadw ddau fetr oddi wrth eraill a golchi'r dwylo yn rheolaidd. Wrth deithio, dylech hefyd osgoi rhannu ceir gyda phobl o'r tu allan i'ch cartref.

"Rhaid i unrhyw un sy'n amau bod ganddo symptomau haint COVID-19 – tymheredd uchel, peswch newydd parhaus, neu wedi colli'r synnwyr arogli neu flasu (anosmia) – hunanynysu a gofyn am brawf ar frys.

"Rhaid i achosion a gadarnheir ynysu am saith diwrnod, gydag aelodau eraill eu cartref yn ynysu am 14 diwrnod nes bod y risg o drosglwyddo'r haint wedi mynd. Gyda'i gilydd, bydd y camau gweithredu syml ond effeithiol yma'n sicrhau nad yw'r feirws yn lledaenu.

**Diweddariad ar yr achosion presennol**

“Gall Iechyd Cyhoeddus Cymru gadarnhau nad ydym yn adrodd am unrhyw achosion newydd o'r Coronafeirws yn gysylltiedig â safle 2 Sisters yn Llangefni ar Ynys Môn.

“Mae'r cyfanswm felly'n parhau'n 221 o achosion sy'n gysylltiedig â'r haint yno. Mae'r ffaith nad oes unrhyw achosion newydd wedi'u cofnodi yn arwydd da, ac mae'n awgrymu bod y mesurau rheoli wedi bod yn effeithiol.

“Mae'r rhaglen brofi â ffocws wedi'i chwblhau, ac nid oes tystiolaeth o drosglwyddo cymunedol ehangach yn sgil yr achosion. Cyn belled nad oes unrhyw newid i'r sefyllfa hon, byddwn yn ceisio dod â'r achoion hyn i ben yn ffurfiol yn y dyfodol agos.

“Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a'n partneriaid amlasiantaeth wedi bod yn ymchwilio i nifer bach o achosion labordy a gadarnhawyd o'r Coronafeirws sy'n gysylltiedig â safle prosesu bwyd Zorba Delicacies Ltd yng Nglynebwy. Yn dilyn profi 476 o weithwyr, cyfanswm yr achosion a gadarnhawyd mewn labordy yw wyth, gydag un achos tebygol arall.

“Cysylltwyd â chysylltiadau agos yr achosion a gadarnhawyd trwy'r broses Profi, Olrhain, Diogelu a rhoddwyd cyngor ychwanegol iddyn nhw, aelodau eu cartrefi a chysylltiadau eraill.”

“Mae Tîm Rheoli Achosion yn parhau i fonitro ar gyfer achosion cysylltiedig â'r gweithlu yn Rowan Foods, ac fel rhan o'i waith yn adolygu'n barhaus ei ddata ar yr achosion o haint y Coronafeirws Newydd (COVID-19).

“Fel rhan o'r broses hon, rydym yn ymchwilio i achosion yn ardal Wrecsam trwy'r broses Profi Olrhain Diogelu. Yn naturiol, mae'r gwaith hwn yn cynnwys nodi ymhle rydym yn credu y gallai trosglwyddo fod yn digwydd, a nodi clystyrau lleol o achosion.

“Yn ogystal, cyfanswm yr achosion positif a nodwyd yn ffatri prosesu cig Kepak Merthyr yw 141 ers mis Ebrill. Mae ymchwiliadau yn y clwstwr hwn yn parhau, a chyhoeddir diweddariadau yn ystod y dyddiau nesaf.

"Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn dweud ei bod yn annhebygol iawn y gallwch ddal y coronafeirws o fwyd. Salwch resbiradol yw COVID-19. Nid oes tystiolaeth ei fod yn cael ei drosglwyddo drwy ddod i gysylltiad â bwyd neu becynnau bwyd.

**Olrhain cysylltiadau a gwybodaeth gyffredinol**

"Mae olrhain cysylltiadau yn parhau yng Nghymru fel rhan o strategaeth *'Profi, Olrhain, Diogelu'* Llywodraeth Cymru. Bydd tîm o olrheinwyr cysylltiadau'n cysylltu ag unrhyw un sydd wedi cael prawf positif am y Coronafeirws Newydd (COVID-19), a gofynnir am fanylion pawb y mae wedi bod mewn cysylltiad agos â nhw tra oedd ganddo symptomau.

"Gwnewch nodyn o'ch gweithgareddau er mwyn i chi allu cofio'n hawdd ble oeddech chi ar ddiwrnod penodol, ynghyd â gyda phwy y buoch mewn cysylltiad.

"Os gofynnir i chi hunanynysu, dylech hefyd gydymffurfio â'r cais hwn er mwyn atal y feirws rhag lledaenu ymhellach.

Mae'r olrheinwyr yn staff hyfforddedig a bydd yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu'n cael ei thrin yn unol â rheoliadau diogelu data ac ni fydd yn cael ei rhannu'n eang.

"Mae rhagor o wybodaeth am symptomau'r Coronafeirws ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru, neu gall aelodau'r cyhoedd ddefnyddio gwiriwr symptomau GIG Cymru.

"Gall unrhyw un sy'n profi symptomau'r Coronafeirws Newydd (COVID-19) wneud cais am becyn prawf cartref drwy fynd i www.gov.wales/coronavirus, neu drwy ffonio'r gwasanaeth ffôn 119 cenedlaethol.

"Ni ddylai unrhyw un sy'n amau bod ganddo/ganddi salwch y coronafeirws fynd i feddygfa, fferyllfa nac ysbyty. Dim ond os yw'n teimlo na all ymdopi â'i symptomau gartref, fod ei gyflwr yn gwaethygu, neu os nad yw ei symptomau'n gwella ar ôl saith niwrnod y dylai gysylltu â NHS 111.

"Peidiwch â ffonio 999 oni bai eich bod yn profi argyfwng sy'n peryglu eich bywyd. Peidiwch â ffonio 999 dim ond oherwydd eich bod yn aros i 111 ateb eich galwad ffôn. Rydym yn deall bod llinellau 111 yn brysur, ond bydd rhywun yn ateb eich galwad ar ôl i chi aros."

"Mae dangosfwrdd data hawdd ei ddefnyddio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn casglu gwybodaeth o ystod o ffynonellau gwahanol.  Mae cyfanswm nifer yr achosion positif bellach yn cynnwys y rhai yr adroddwyd amdanynt o labordai nad ydynt yn eiddo i GIG Cymru, sy'n destun dad-ddyblygu, mireinio a chysoni parhaus. Gallai hyn arwain at amrywiad yng nghyfanswm yr achosion positif wrth i'r broses hon fynd rhagddi.

"Dylid nodi nad yw'r achosion o labordai nad ydynt yn eiddo i GIG Cymru yn achosion newydd, a'u bod wedi bod ar y dangosfwrdd ers sawl wythnos.  Adroddwyd amdanynt yn flaenorol ar dab gwahanol, ond bellach maent wedi'u hymgorffori yn y cyfansymiau ar gyfer ardal yr awdurdod lleol ac ardal y Bwrdd Iechyd y mae'r claf yn byw ynddo, er mwyn rhoi darlun cyflawn ar gyfer Cymru.

**DIWEDD**

**CYSYLLTU:   Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â thîm Cyfathrebu Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 02920 348755 (24 awr)**

Nodiadau'r golygydd

Mae gwybodaeth fanwl am achosion newydd o Coronafeirws Newydd (COVID-19) yng Nghymru bellach ar gael ar ein dangosfwrdd data hawdd ei ddefnyddio ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Sefydliad y GIG yw Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n darparu cyngor a gwasanaethau iechyd y cyhoedd annibynnol yn broffesiynol i amddiffyn a gwella iechyd a llesiant poblogaeth Cymru.

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru bedair swyddogaeth statudol:

- Darparu a rheoli ystod o wasanaethau a gwasanaethau iechyd y cyhoedd, amddiffyn iechyd, gwella gofal iechyd, cynghori iechyd, amddiffyn plant a labordy microbiolegol sy'n ymwneud â goruchwylio, atal a rheoli clefydau trosglwyddadwy;

- Datblygu a chynnal trefniadau ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn a gwella iechyd yng Nghymru ar gael i'r cyhoedd; ymgymryd â chomisiynu ymchwil i faterion o'r fath a chyfrannu at ddarparu a datblygu hyfforddiant mewn materion o'r fath;
- Ymgymryd â chasglu, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth yn systematig am iechyd pobl Cymru yn benodol gan gynnwys nifer yr achosion o ganser, marwolaethau a goroesi; a nifer yr anomaleddau cynhenid; a

- Darparu, rheoli, monitro, gwerthuso a chynnal ymchwil i sgrinio cyflyrau iechyd a sgrinio materion sy'n ymwneud ag iechyd.

Mae rhagor o wybodaeth am Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gael yn [www.phw.nhs.wales](http://www.phw.nhs.wales)